Dweud eich dweud ar gynllun iaith Gymraeg y Cyngor ar gyfer ysgolion

Mynnwch gael dweud eich dweud am ddyfodol addysg ddwyieithog yn Sir Gaerfyrddin am y 10 mlynedd nesaf.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu barn pobl am ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) drafft.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael cynllun o'r fath, ac mae'n nodi gweledigaeth y Cyngor ar sut byddwn yn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn ein hysgolion o 2022-2032, yn seiliedig ar ganlyniadau a thargedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dysgwch fwy a rhowch eich barn i ni https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/addysg-ddwyieithog/cynllun-strategol-cymraeg-mewn-addysg-csga/